Prifysgolion y DU

Gwahoddiad i dendro – UNIW-190210/424

CYMRU FYD-EANG II

11 Mawrth 2019

Wedi'i baratoi gan: Laura Fergusson. Swyddog Prosiectau Rhyngwladol, Prifysgolion Cymru

GWAHODDIAD I DENDRO

Mae'r fanyleb hon yn gwahodd tendrau am astudiaeth werthuso a monitro pum mlynedd o'r prosiect Cymru Fyd-eang II a reolir gan Brifysgolion Cymru. Nod yr astudiaeth yw mesur ac asesu effaith ymgyrchoedd a dargedir gan Gymru Fyd-eang II, trwy gydol y prosiect tair blynedd a'r ddwy flynedd ar ôl i'r prosiect ddod i ben. Fe gyflawnir hyn trwy sefydlu llinell sylfaen gychwynnol a set o ddangosyddion perfformiad allweddol a chynnal adolygiadau blynyddol yn ôl y llinell sylfaen honno.

Mae'r ITT hwn ar gael i'w lawrlwytho yn www.uniswales.ac.uk, www.universitiesuk.ac.uk and www.sell2wales.gov.wales

PRIFYSGOLION CYMRU

Mae Prifysgolion Cymru (Unis Cymru) yn cynrychioli buddiannau prifysgolion yng Nghymru ac mae'n Gyngor Cenedlaethol Prifysgolion y DU. Mae aelodaeth Prifysgolion Cymru'n cwmpasu Is-Gangellorion holl brifysgolion Cymru, a Chyfarwyddwr y Brifysgol Agored yng Nghymru. Ein cenhadaeth yw cefnogi system addysg prifysgol sy'n trawsnewid bywydau drwy'r gwaith mae prifysgolion Cymru yn ei wneud gyda phobl a lleoedd Cymru a'r byd ehangach.

CEFNDIR

1 Mae myfyrwyr rhyngwladol ac UE sy'n astudio ym Mhrifysgolion Cymru yn cyflwyno manteision economaidd, cymdeithasol a diwylliannol sylweddol i Gymru, gan gyfrannu tua £500 miliwn i economi Cymru bob blwyddyn. Gan gydnabod hyn ac effaith ehangach gweithgarwch ymchwil a phartneriaeth rhyngwladol prifysgolion, ymunodd prifysgolion Cymru ynghyd â Llywodraeth Cymru, British Council Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) i lansio 'Cymru Fyd-eang'.

2 Wedi'i chychwyn a'i harwain gan y sector drwy Brifysgolion Cymru, mae Cymru Fyd-eang yn darparu cymorth strategol i brifysgolion mewn nifer fach o farchnadoedd targed. Ar y cychwyn fe'i sefydlwyd fel rhaglen beilot dair blynedd (2015-2018).

3 Yn dilyn proses helaeth o ymchwil i'r farchnad, nodwyd yr Unol Daleithiau a Fietnam fel marchnadoedd blaenoriaethol. Roedd gwaith yn yr Unol Daleithiau yn canolbwyntio'n bennaf ar godi proffil i fynd i'r afael â chyfran farchnad gymharol isel Cymru o fyfyrwyr yr UD yn y DU. Roedd Fietnam, farchnad gyfleoedd ddigyffwrdd i Gymru, lle mae'r llywodraeth yn chwilio'n weithredol am bartneriaid rhyngwladol, yn galw am ymagwedd hollol wahanol gan fanteisio ar system gyfan addysg uwch Cymru ar gyfer deialog bolisi, creu partneriaeth a symudedd myfyrwyr a staff.

4 Mae'r brand 'Astudio yng Nghymru', gan gynnwys presenoldeb Cymru mewn cynadleddau ac arddangosfeydd addysg rhyngwladol allweddol, yn cael ei reoli ar hyn o bryd drwy'r prosiect Cymru Fyd-eang.

5 O 2015-2018, gweithredodd y prosiect ar gyllideb o £45,000 y flwyddyn, a ariennir gan gyfraniadau ariannol cyfartal gan Brifysgolion Cymru, Llywodraeth Cymru a British Council Cymru. Manteisiwyd ar gyllid ychwanegol trwy ffynonellau cyllid allanol e.e. Ymgyrch GREAT.

6 Fe gyfarfu Bwrdd Cymru Fyd-eang i ddarparu cyfeiriad strategol i'r bartneriaeth ac i fonitro'r gyllideb. Roedd yr aelodaeth yn cynnwys uwch gynrychiolwyr o bob sefydliad partner, a gyfarfu bob tymor. Cadeiriwyd y Bwrdd gan gadeirydd grŵp PVC Rhyngwladol Prifysgolion Cymru.

7 Ym mis Chwefror 2018, fe wnaeth yr holl bartneriaid ymrwymo i fuddsoddiad tair blynedd arall yn y rhaglen. Â'r ymrwymiad hwn yn ei le, fe wnaeth Prifysgolion Cymru gyflwyno cais am gyllid i Gronfa Bontio'r UE Llywodraeth Cymru [1]. Cyflwynwyd y Gronfa Bontio ym mis Ionawr 2018 i helpu busnesau, gwasanaethau cyhoeddus a sefydliadau partner eraill i gynllunio ar gyfer effeithiau Brexit a'u lliniaru.

8 Roedd y cynnig yn canolbwyntio ar effaith myfyrwyr rhyngwladol ac UE yng Nghymru o ran enillion allforio, creu swyddi a chefnogi twristiaeth. Fe wnaeth yr achos dros fwy o fuddsoddiad mewn recriwtio a gweithgarwch partneriaeth rhyngwladol i wneud Cymru'n fwy deniadol i fasnachu a buddsoddi uniongyrchol tramor (FDI).

9 Yn ogystal, gwnaed yr achos y dylai Cymru barhau i fod yn gyrchfan groesawgar i fyfyrwyr a staff rhyngwladol, gan eu bod yn cyfrannu'n helaeth at wead cymdeithasol ein campysau, trefi a dinasoedd, ac i fuddiannau strategol a diplomyddol hirdymor Cymru, gan roi hwb i'n pŵer meddal ac yn ehangu ein rhwydweithiau ar draws y byd.

10 Roedd y cynnig yn mynd i'r afael â'r ffactorau allanol sy'n effeithio ar recriwtio myfyrwyr yr UE a myfyrwyr rhyngwladol. Gallai'r ffaith bod y DU yn gadael yr UE arwain at newidiadau sylweddol i statws myfyrwyr yr Undeb Ewropeaidd, sy'n cyflwyno risg sylweddol i recriwtio myfyrwyr o'r UE, a fyddai'n cael effaith ariannol sylweddol ar brifysgolion Cymru ac economi Cymru.

11 Mae canfyddiadau negyddol o'r DU fel gwlad nad yw'n croesawu myfyrwyr rhyngwladol, a achoswyd yn wreiddiol trwy gael gwared â'r fisa gwaith ôl-astudiaeth yn 2012, wedi'u gwaethygu gan y drafodaeth ynghylch Brexit. Ystyriwyd bod hyrwyddo Cymru fel cenedl agored, gyfeillgar a dynamig yn hanfodol er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i fod yn gyrchfan ddeniadol i bob myfyriwr ac ymchwilydd rhyngwladol fel ei gilydd.

[1] https://beta.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-08/12-july-2018-transition-fund.pdf

12 Yn unol â hynny dyfarnwyd cyllid o £3.5 miliwn i'r prosiect Cymru Fyd-eang ym mis Gorffennaf 2018 am raglen dair blynedd arall. Byddai Cymru Fyd-eang II hefyd yn hyrwyddo Cymru fel cyrchfan astudio, ceisio arallgyfeirio'r corff myfyrwyr rhyngwladol a manteisio ar y galw cynyddol am addysg uwch yn fyd-eang, â gweithgarwch craidd yn y meysydd dilynol:

- Datblygu marchnadoedd blaenoriaethol cyfredol (Fietnam ac UDA);
- Ehangu i gynnwys marchnadoedd blaenoriaethol newydd
- Ailfuddsoddiad mawr mewn rhaglen weithgarwch ehangach ar gyfer y brand "Astudio yng Nghymru" ar lefel ddomestig, yr UE a rhyngwladol

13 Roedd y cynnig yn argymell cyflwyno'r buddion dilynol:

- Cynyddu cyfran farchnad Cymru o gyfanswm recriwtio myfyrwyr yr UE a rhyngwladol y DU o farchnadoedd targed
- Arallgyfeirio'r corff myfyrwyr rhyngwladol, gan ein gwneud yn llai agored i amrywiadau mewn marchnadoedd unigol
- Cynyddu nifer y myfyrwyr o weddill y DU sy'n dewis astudio yng Nghymru
- Sicrhau elw ar fuddsoddiad i Lywodraeth Cymru o ran arian cyfatebol, cyfleoedd i fusnesau, partneriaethau a chyfnewid
- Cynyddu nifer y partneriaethau ymchwil a masnachol â marchnadoedd blaenoriaethol, gan greu cyfleoedd pellach i ddenu buddsoddiad i Gymru
- Rhoi hwb i broffil Cymru mewn marchnadoedd tramor allweddol a chynhyrchu cyfleoedd diplomyddol a masnachu ehangach trwy ddeialog â llywodraethau tramor
- Cynyddu pŵer meddal hirdymor Cymru trwy gynyddu cyfnewidfeydd myfyrwyr, staff ac ymchwilwyr rhwng Cymru a'n marchnadoedd blaenoriaethol

14 Roedd yr egwyddorion dylunio dilynol yn sail i'r buddsoddiadau a wnaed o Gronfa Bontio Ewrop:

- Yn ychwanegol at weithgarwch parhaus sydd eisoes wrth fynd, manteisio ar adnoddau ychwanegol lle bo modd;
- Yn ychwanegol at fuddsoddiadau/iawndal gan Lywodraeth y DU;
- Strategol, wedi'i seilio'n dda ac â photensial clir i ychwanegu gwerth, yn cefnogi cydweithio ar draws sectorau;
- Lle bynnag mae'n bosibl, cael eu dosbarthu trwy ddefnyddio sianeli cyllido presennol Llywodraeth Cymru â sefydliadau presennol sy'n weithredol yn y meysydd a nodwyd.

15 Er mwyn monitro a gwerthuso effaith y prosiect Cymru Byd-eang II a'i ymgyrchoedd a dargedir yn effeithiol, rydym yn ceisio ymgynghorydd allanol i sefydlu llinell sylfaen, a meini prawf llwyddiant y gellir mesur ac asesu newid a chynnydd yn y dyfodol yn ystyrlon yn eu hôl wedyn. Yna byddem yn disgwyl adroddiadau blynyddol yn ôl y meini prawf hynny am gyfanswm o 5 mlynedd.

PROSIECT MONITRO A GWERTHUSO

Nodau

16 Nod cyntaf y prosiect monitro a gwerthuso yw sefydlu llinell sylfaen, gan nodi'r sefyllfa bresennol mewn perthynas ag addysg uwch ryngwladol yng Nghymru ac yn arbennig ym marchnadoedd blaenoriaethol Cymru Fyd-eang. Hefyd bydd angen set o ddangosyddion perfformiad allweddol a meini prawf llwyddiant pendant ar gyfer y rhaglen Cymru Fyd-eang, ar gyfer y tymor byr, canolig a hir.

17 Ail nod y gwerthusiad fydd adolygu ac asesu effaith y rhaglen Cymru Fyd-eang II yn rheolaidd dros y pum mlynedd nesaf, yn unol â'r meini prawf llwyddiant.

Eitemau Cyflenwadwy a Chanlyniadau

18 Y cyntaf i'w gyflenwi fydd adroddiad gwerthuso cychwynnol o'r sefyllfa bresennol mewn perthynas ag addysg uwch ryngwladol yng Nghymru er mwyn sefydlu llinell sylfaen y gellir mesur newid a chynnydd yn ystyrlon yn ei hôl.

19 Dylid cyflwyno'r adroddiad llinell sylfaen erbyn canol Gorffennaf 2019, a bydd yn nodi eitemau mesuradwy effaith allweddol megis:

- Niferoedd myfyrwyr rhyngwladol ym mhrifysgolion Cymru - i'r tu mewn ac i'r tu allan
- Partneriaethau prifysgol Cymru a pherthnasoedd ymchwil
- Ymgysylltiadau digidol
- Sectorau ychwanegol a gefnogir
- Ffigurau twristiaeth - nifer yr ymwelwyr i Gymru a'u heffaith economaidd
- Cysylltiadau diplomyddol a ffurfir
- Enillion allforio a gynhyrchir
- Effaith ar gyflogaeth a GYC cysylltiedig

20 Bydd adroddiadau dilynol yn ceisio gwerthuso sut mae gweithgareddau'r rhaglen Byd-eang Cymru II wedi cyflawni yn ôl ei chanlyniadau a gynigwyd ar y cychwyn ac unrhyw ganlyniadau ychwanegol.

21 Y disgwyliad fyddai cyfanswm o bedwar adroddiad dilynol, ag adolygiad manwl a ddarperid ar ddiwedd blwyddyn tair y rhaglen, dau adolygiad interim ar ddiwedd blynyddoedd dwy a phedair, ac adroddiad effaith derfynol a ddarperid yn yr Hydref 2023 - pum mlynedd ar ôl sefydlu Cymru Fyd-eang II.

22 Bydd angen i'r prosiect monitro a gwerthuso hwn gynhyrchu tystiolaeth o effaith y rhaglen ar addysg uwch Ryngwladol yng Nghymru a'i dylanwad ehangach ar sectorau cysylltiedig megis twristiaeth, masnach a diwydiant. Hefyd bydd angen i ffactorau allanol sy'n effeithio ar y rhaglen, megis y cyd-destun geo-wleidyddol, gael eu cynnwys yn ofalus mewn unrhyw ddadansoddiad.

Amserlen Arfaethedig y Prosiect

Cam gweithredu	Dyddiad
Cyhoeddir y gwahoddiad i dendro	11 Mawrth 2019
Dyddiad ac amser cau ar gyfer derbyn cynigion tendro	12 canol dydd Dydd Iau 4 Ebrill 2019
Adolygiad o gyflwyniadau tendro	wythnos yn cychwyn 8 Ebrill 2019
Penodi contractwyr	Dydd Llun 15 Ebrill 2019
Cyfarfod cychwyn prosiect rhwng contractwr a thîm prosiect Cymru Fyd-eang	wythnos yn cychwyn 29 Ebrill 2019
Cyflwyno cynllun prosiect manwl	Dydd Gwener 10 Mai 2019
Cyflwyno adroddiad Gwerthusiad Llinell Sylfaen	Dydd Gwener 26 Gorffennaf 2019
Blwyddyn 1 - Adroddiad gwerthusiad interim	Rhagfyr 2019
Blwyddyn 2 - Adroddiad gwerthusiad interim	Medi 2020
Blwyddyn 3 - Diwedd y Rhaglen Cymru Fyd-eang II - adroddiad gwerthusiad ac asesiad effaith manwl	Medi 2021
Blwyddyn 4 - Adroddiad gwerthusiad interim	Medi 2022
Blwyddyn 5 - Gwerthusiad ac asesiad effaith manwl terfynol	Medi 2023

Monitro

23 Yn dilyn cyfarfod cychwynnol y prosiect, byddem yn rhagweld amserlen o gyfarfodydd prosiect chwarterol dros 12 mis cyntaf y prosiect, i adolygu cynnydd a sicrhau bod y mesurau effaith allweddol cywir wedi'u nodi i gyflenwi tystiolaeth ofynnol o lwyddiant yn ôl canlyniadau arfaethedig.

24 Byddai mesurau monitro pellach yn cael eu hadolygu yn unol â gofynion y prosiect parhaus.

Cyllideb

25 Mae cyllideb o hyd at £120,000 (yn cynnwys TAW) ar gael ar gyfer yr astudiaeth werthuso a monitro bum mlynedd hon.

GOFYNION TENDRO

Cynnig y tendr

26 Dylai ymgeiswyr gyflwyno tendr cryno, gan ganolbwyntio ar y gwaith a chyllideb arfaethedig. Dylai'r tendr gynnwys gwybodaeth ynghylch y dilynol:

i. manylion y sefydliad gan gynnwys enw, statws cyfreithiol, manylion cyswllt llawn a chyswllt arweiniol;

ii. manylion neu CVs staff a fydd yn ymgymryd â'r gwaith a dadansoddiad clir o faint o amser y bydd pob unigolyn yn cyfrannu at y prosiect;

iii. manylion ynghylch darnau eraill o waith mae eich sefydliad wedi'u cyflenwi sy'n debyg o ran ffocws, cwmpas a thôn i'r prosiect / gweithgaredd;

iv. profiad proffesiynol ac arbenigedd sy'n berthnasol i'r prosiect / gweithgaredd, gan gynnwys profiad ac arbenigedd gweithio o fewn y sector AU

v. unrhyw fanylion eraill amdanoch chi neu'ch sefydliad rydych yn teimlo y gallent fod yn berthnasol

vi. ymagwedd/methodoleg arfaethedig i gyflenwi'r gweithgaredd, gan gynnwys:

- amserlen glir ar gyfer y gwaith, cerrig milltir allweddol ac amserlenni clir ar gyfer cwblhau'r prosiect;
- atodlen o'r holl gostau, gan gynnwys dadansoddiad manwl o sut y bydd costau'n cael eu dyrannu o ran oriau staff, teithio, TAW ac ati;
- manylion ynghylch unrhyw sensitifrwydd posibl sy'n gysylltiedig ag ymchwilio i'r maes hwn a sut y bydd yn cael ei reoli;
- manylion ynghylch sut y cewch gyfradd ymateb ddigon uchel o ystod eang a chynrychiadol o staff a myfyrwyr;
- manylion ynghylch sut y byddwch yn gweithio'n agos â Phrifysgolion Cymru/UUK a Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru;
- asesiad risg o'ch ymagwedd arfaethedig a sut y byddwch yn lliniaru unrhyw risgiau allweddol;
- gwrthdrawiadau buddiannau (fel y'i gofynnir ym mharagraff 39 isod)
- tystysgrif wedi'i llofnodi o beidio â chydgynllwynio a ddatganiad, a gyflwynir ar y ffurf a roddir yn **Atodiad A** i'r ITT hwn

27 Os cyflwynir y tendr ar ran consortiwm, os gwelwch yn dda:

i. rhestru aelodau'r consortiwm

ii. nodi'r aelod arweiniol a man cyswllt

28 Os yw'r tendr yn cynnwys perthynas isgontractio, datganwch:

i. y prif gontractwr a'r isgontractwyr

ii. natur y berthynas hon

Ffioedd

29 Y cyfanswm sydd ar gael ar gyfer y gwaith hwn, gan gynnwys yr holl ffioedd a threuliau yw £120,000 gan gynnwys TAW. Mae hyn yn cynnwys yr holl ffioedd presenoldeb, ffioedd cynhadledd a threuliau sy'n gysylltiedig â'r prosiect.

30 Wrth gyfrifo gorbenion y prosiect dylid cymryd i ystyriaeth y ffaith bod UUK yn elusen addysgol gofrestredig ac yn gorff di-elw.

31 Byddai'n well gennym dalu am y gwaith yn unol â chyflenwi'r adroddiadau trefnedig:

- Taliad cychwynnol o 10% wrth lofnodi'r contract;
- Taliad interim o 15% wrth gyflwyno'r adroddiad gwerthusiad cychwynnol
- Taliadau interim pellach o 15% wrth gyflwyno adroddiadau monitro blynyddol dilynol (cyfanswm o 60%)
- Taliad terfynol o 15% ar ôl derbyn adroddiad gwerthusiad blwyddyn 5.

32 Mae UUK yn dymuno cytuno ar bris sefydlog ar gyfer y gwaith.

33 Nid yw UUK yn gorfod derbyn y tendr â'r pris isaf ac ni fydd yn rhwym o dderbyn y contractwr fel unig gyflenwr.

Meini prawf dewis

34 Wrth ddyfarnu'r contract, bydd UUK yn ystyried y cydbwysedd rhwng ansawdd tendr yr ymgeisydd a gwerth am arian, gan ystyried y ffactorau a restrir yn yr ITT hwn a'r fethodoleg arfaethedig yn benodol.

35 Fe gaiff tendr pob ymgeisydd ei asesu ar y dilynol:

- Profiad perthnasol o'r tîm, gan gynnwys cyhoeddiadau a hanes o reoli prosiectau credadwy a sylweddol.
- Dealltwriaeth o'r sector addysg uwch.
- Dealltwriaeth o broblemau posibl wrth ymchwilio i addysg uwch ryngwladol yng Nghymru, a nodi atebion ymarferol i heriau'r prosiect arfaethedig.
- Priodoldeb y fethodoleg arfaethedig o ran sicrhau gwybodaeth gredadwy a chadarn.
- Dichonoldeb cwblhau rhaglen waith ymarferol hyd at ansawdd uchel o fewn yr amserlen benodedig.
- Lliniaru risg.
- Gwerth cyffredinol am arian.

Canolwyr

36 Dylid darparu enw a manylion cyswllt dau ganolwr mae'r ymgeisydd wedi gweithio iddynt yn ddiweddar (o fewn y pum mlynedd diwethaf yn unig) fel y gellir cymryd geirda.

Amseru

37 Manylir ar amserlen y prosiect yn yr Amserlen a ddarperir ym mharagraff 16. Dylai'r ymgeisydd nodi'r dyddiadau allweddol dilynol:

- Dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau e-bost: Dydd Iau, 4ydd Ebrill 2019 am 12 canol dydd
- Dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau copi caled: Dydd Llun, 8fed Ebrill 2019 am 12 canol dydd
- Dyfarnu tendr i'r ymgeisydd llwyddiannus: Dydd Llun, 15fed Ebrill 2019
- Cyflenwi'r prosiect Gwerthusiad Cychwynnol erbyn 26ain Gorffennaf 2019
- Manylir ar ddyddiadau ar gyfer adroddiadau dilynol hefyd yn yr amserlen ym mharagraff 16

38 Mae'r dyddiadau a gyflwynir yn y paragraff hwn dros dro yn unig a gellir eu newid gan UUK yn ôl ei ddisgresiwn.

Cyfrifoldebau adrodd

39 Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn adrodd wrth **Gwen Williams**, Pennaeth Rhyngwladol, Prifysgolion Cymru

Gwrthdrawiad buddiannau

40 Rhaid darparu manylion polisi'r ymgeisydd ar drin gwrthdrawiadau buddiannau a allai fodoli neu godi ynglŷn â'r ymgysylltiad hwn. Os bydd gan gyfarwyddwr, partner, cyflogai neu gyflogai sy'n cynrychioli'r ymgeisydd fuddiant neu gysylltiad ag UUK, darparwch enw llawn, swydd yr unigolyn hwnnw a natur y cysylltiad/buddiant ag UUK.

Cyflwyno'r tendr

41 Dychwelwch **un copi e-bost a 3 chopi caled** o'ch ymateb (a nodir fel isod) yn Saesneg at:

Dogfennau tendro wedi'u hamgáu - PEIDIWCH AG AGOR - (cyf. UNIW-190210/424)

Laura Fergusson
Swyddog Prosiectau Rhyngwladol
Prifysgolion Cymru
2 Caspian Point
Caspian Way
Caerdydd
CF10 4DQ

E-bost: l.fergusson@uniswales.ac.uk

42 **Dylai copi e-bost o ddogfennau tendro gyrraedd heb fod yn hwyrach na Dydd Iau, 4ydd Ebrill am 12 hanner dydd.**

43 Bydd gan UUK yr hawl i wahardd unrhyw ymgeiswyr sy'n cyflwyno tendrau anghyflawn neu hwyr.

Contractio

44 Mae'r tendr hwn yn cael ei gyhoeddi gan UUK. Bydd unrhyw gontractau â'r darparwr llwyddiannus yn cael eu gwneud ag UUK. Mae'r math o gontract y bydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus ei wneud ag UUK gyda'r ITT hwn wedi'i gynnwys yn **Atodiad B**.

Rhagor o wybodaeth

45 Am ragor o fanylion, cysylltwch â Laura Fergusson ar y ffôn ar 029 2044 8029 neu l.fergusson@uniswales.ac.uk, sydd hefyd yn fan cyswllt i ymgeiswyr ar gyfer unrhyw ymholiadau sydd gennych ynghylch yr ITT hwn.

46 Dylai unrhyw ymholiadau gyfeirio'n glir at y paragraff priodol yn y ddogfennaeth ac, i'r graddau y bo'n bosibl, dylid eu cydgrynhoi yn hytrach na'u hanfon yn unigol. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymholiadau yw dydd Llun 25 Mawrth 2019.

47 Bydd Prifysgolion Cymru yn ymateb i bob cais rhesymol am eglurhad o unrhyw agwedd ar yr ITT hwn a'r dogfennau ategol cyn gynted ag y bydd yn rhesymol bosibl. Nodwch y bydd yr ymateb i'ch ymholiad yn cael ei bostio ar ein gwefan (heb enwi'ch sefydliad), felly ni ddylai eich ymholiad gynnwys unrhyw fanylion sy'n gyfrinachol.

48 Sylwer na chaniateir negodiadau cyn tendro.

DATGANIAD CYFRINACHEDD AC YMWADIAD

49 Mae'r wybodaeth a gynhwysir yn yr ITT hwn a'r holl wybodaeth arall y trefnir ei bod ar gael ar unrhyw adeg i'r ymgeiswyr gan ac ar ran UUK mewn cysylltiad â'r prosiect yn cael ei ddarparu ar y sail y bydd yr ymgeiswyr yn cadw'r wybodaeth honno'n gyfrinachol bob amser ac y bydd y wybodaeth honno'n cael ei defnyddio at ddibenion cymryd rhan yn y broses ymgeisio yn unig.

50 Ni fydd unrhyw wybodaeth yn yr ITT hwn nac unrhyw wybodaeth ysgrifenedig, lafar neu wybodaeth arall y trefnir ei bod ar gael i'r ymgeisydd yn sail i unrhyw warant, sylw neu deleryn unrhyw gontract gan UUK ag unrhyw drydydd parti.

51 Nid yw UUK yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb nac atebolrwydd am gywirdeb na chyflawnder yr ITT nac unrhyw wybodaeth lafar neu ysgrifenedig arall a ddarperir gan UUK i unrhyw ymgeisydd.

52 Mae UUK yn cadw'r hawl i beidio â dilyn yr ITT hwn mewn unrhyw fodd a/neu i dynnu'n ôl o'r broses gaffael neu ei diwygio.

HAWLIAU UUK I GANSLO

53 Mae UUK yn cadw'r hawl, heb rybudd ymlaen llaw ac yn ôl ei ddisgresiwn llwyr, i newid neu derfynu'r weithdrefn dendro ar gyfer y prosiect ar unrhyw adeg cyn llofnodi'r contract gyda'r ymgeisydd llwyddiannus.

Atodiad A

Tystysgrif Peidio â Chydgynllwynio a Datganiad

Rwyf yn tystio:

i. Cyrhaeddwyd ar y prisiau yn y Tendr yn annibynnol, heb ymgynghori, cyfathrebu, cytundeb neu ddealltwriaeth at ddiben cyfyngu ar gystadleuaeth, ynghylch unrhyw fater sy'n ymwneud â phrisiau o'r fath, ag unrhyw Ymgeisydd arall neu ag unrhyw gystadleuydd.

ii. Oni bai ei fod yn ofynnol fel arall yn ôl y gyfraith, nid yw'r prisiau a ddyfynnwyd yn y Tendr wedi'u datgelu gan yr Ymgeisydd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i unrhyw Ymgeisydd neu gystadleuydd arall, ac ni chaiff eu datgelu ychwaith.

iii. Ni wnaed unrhyw ymgais ac ni wneir unrhyw ymgais gan yr Ymgeisydd i ysgogi unrhyw unigolyn neu gwmni arall i gyflwyno neu beidio â chyflwyno Tendr er mwyn cyfyngu ar gystadleuaeth.

iv. Ni wnaed unrhyw ymgais yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i ganfasio unrhyw gyflogai neu gynghorydd UUK ynghylch dyfarnu'r contract sy'n destun y gwahoddiad hwn i dendro.

v. Rwy'n cydnabod y bydd unrhyw osod prisiau neu gydgynllwynio ag Ymgeiswyr eraill mewn perthynas â'r Prosiect yn rhoi'r hawl i UUK wahardd Ymgeisydd rhag y broses gaffael ac y gallai fod yn drosedd.

vi. Rwyf wedi fy awdurdodi gan yr Ymgeisydd (a'r holl gwmnïau a sefydliadau cysylltiedig perthnasol) i gyflenwi'r wybodaeth a roddir yn y Tendr.

vii. Rwyf yn datgan, ar ddyddiad llofnodi'r datganiad hwn, bod y wybodaeth a roddir yn gyflawn ac yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth ar ôl gwneud ymholiadau rhesymol.

Llofnod: _____

Enw: _____

Dyddiad: _____

Ar ran: _____

Atodiad B:

Contract ar gyfer Gwasanaethau Ymgynghori

Gwneir y contract hwn ar y diwrnod hwn ..... rhwng:

_____

[Enw a chyfeiriad y sefydliad]

A elwir o hyn ymlaen

“y Contractwr”

Universities UK [Prifysgolion y DU], cwmni cyfyngedig trwy warant, a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr (Rhif 2517018) Rhif Elusen Gofrestredig 1001127

Woburn House

20 Tavistock Square

LLUNDAIN

WC1H 9HQ

A elwir o hyn ymlaen

Universities UK [Prifysgolion y DU]

_____

Cytunir drwy hyn fel a ganlyn:

1. Cwmpas y gwaith

Bydd y Contractwr yn ymgymryd â gwaith ymgynghori i Universities UK ac yn darparu'r astudiaeth fel y'i nodir yn unol â:

- Gwahoddiad i dendro Universities UK – [Teitl a dyddiad]
- Dogfen dendro wreiddiol y Contractwr mewn perthynas â'r gwaith hwn, dyddiedig ....
- dogfen dendro ddiwygiedig yn Atodiad A i'r contract hwn. [Os oes angen]

a'r telerau ac amodau a nodir yma a fydd yn cynnwys y contract gyda'i gilydd. Os bydd unrhyw wrthdaro rhwng y telerau a nodir yma (neu fel y'i nodir yn nogfen gwahoddiad i dendro Universities UK); bydd telerau Universities UK yn drech.

2. Neilltuo isgontractio

Ni fydd y Contractwr neilltuo neu isgontractio'r gwasanaethau sydd i'w darparu o dan y contract nac unrhyw un o'i hawliau neu rwymedigaethau oddi dano heb ganiatâd ysgrifenedig blaenorol Universities UK.

3. Cysylltiadau a Grŵp Llywio

Cysylltiadau Universities UK fydd:	[Enw]	Ffôn:
	[Enw]	Ffôn:

Cysylltiadau'r Contractwr fydd: [Enw] Ffôn:

Bydd Grŵp Llywio'n cael ei sefydlu gan Universities UK i reoli'r prosiect. Bydd y Grŵp Llywio'n cyfarfod ar y fath gyfnodau y bydd Universities UK yn eu penderfynu'n rhesymol at ddibenion monitro cynnydd o ran y gwaith a wneir gan y Contractwr a materion eraill sy'n ymwneud â rheoli'r contract fel y bydd Universities UK yn ei benderfynu.

4. Cyhoeddusrwydd

Ni fydd y Contractwr yn datgelu, heb ganiatâd blaenorol Universities UK, trwy ddatganiad i'r wasg neu fel arall i unrhyw drydydd parti, unrhyw beth sy'n ymwneud â'r gwasanaethau a ddarperir o dan y contract, ac eithrio fel sy'n angenrheidiol wrth weithredu'r contract.

5. Cyfrinachedd

Bydd y Contractwr yn parchu a chynnal cyfrinachedd unrhyw wybodaeth a roddir iddynt gan Universities UK neu ei asiantaethau neu gan unrhyw sefydliadau addysg uwch sy'n rhan o'r astudiaeth ac ni fydd yn datgelu unrhyw ran o wybodaeth o'r fath nac unrhyw ran o'r astudiaeth a ddisgrifir a'i ganfyddiadau i drydydd parti heb ganiatâd ysgrifenedig blaenorol Universities UK.

6. Defnyddio o Ddata a Gyflenwir gan Universities UK i'r Contractwr

a. Bydd y Contractwr yn cael ei gofrestru'n briodol â'r Cofrestrydd Diogelu Data a bydd yn cydymffurfio â'r holl reoliadau statudol sy'n ymwneud â'i ddefnydd o ddata a gyflenwir gan Universities UK.

b. Ni chaiff y data a gyflenwir gan Universities UK i'r Contractwr ei ddefnyddio gan y Contractwr at unrhyw ddiben heblaw'r hyn a amlinellir ym manyleb yr astudiaeth fel y'i cyflwynir yng ngwahoddiad i dendro Universities UK.

c. Bydd y Contractwr yn sicrhau na ddatgelir data personol i unrhyw drydydd parti.

d. Bydd y Contractwr yn sicrhau bod y data'n cael ei brosesu'n deg ac yn destun diogelwch priodol.

e. Bydd y Contractwr yn dinistrio unrhyw ddata ystadegol a phersonol a gyflenwir gan Universities UK pan ac os y bydd Universities UK yn ei wneud yn ofynnol iddo wneud hynny, a darparu cadarnhad ynglŷn â'i ddinistrio yn y fath ffordd y gallai Universities UK ofyn yn rhesymol amdano.

f. Bydd y Contractwr yn dychwelyd unrhyw ddogfennaeth a ddarparwyd iddo yn ystod y contract gan Universities UK at ddibenion cynnal yr astudiaeth.

g. Mae'r Contractwr yn atebol am unrhyw iawndal yng nghostau cyfreithiol a dynnir gan Universities UK rhag colli a / neu gamddefnyddio data a ddarperir i'r Contractwr.

7 Rhyddid Gwybodaeth

Os bydd y Contractwr yn derbyn cais o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 i ddatgelu unrhyw wybodaeth sydd, o dan y Cytundeb hwn, yn Wybodaeth Gyfrinachol Universities UK, bydd yn hysbysu Universities UK a bydd yn ymgynghori ag Universities UK. Bydd Universities UK yn ymateb i'r Contractwr o fewn 10 diwrnod ar ôl derbyn hysbysiad y Contractwr os yw'r hysbysiad hwnnw'n gofyn i Universities UK ddarparu gwybodaeth i gynorthwyo'r Contractwr i benderfynu a yw eithriad i'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn berthnasol i'r wybodaeth y gofynnir amdani o dan y Ddeddf honno ai peidio.

8. Moeseg Busnes a Gwrthddrawiadau Buddiannau a Gwarant

Bydd y Contractwr yn cynnal y safonau proffesiynol uchaf gan gynnwys y rhai hynny sydd eu hangen er mwyn osgoi unrhyw amhriodoldeb go iawn neu amlwg neu i atal unrhyw gamau neu amodau a allai arwain at wrthdaro â buddiannau Universities UK.

Bydd y Contractwr yn sicrhau y bydd y wybodaeth a ddarperir yn yr astudiaeth yn wir ac yn gywir ym mhob ffordd berthnasol a bydd fel arall yn cydymffurfio â manyleb yr astudiaeth fel y'i nodir yng ngwahoddiad i dendro Universities UK.

9. Atebolrwydd

Ni fydd y cyngor neu'r wybodaeth a roddir gan y Contractwr yn golygu toriad ar hawliau trydydd parti ac yn unol â hynny bydd y Contractwr yn indemnio Universities UK yn erbyn yr holl gostau, treuliau a rhwymedigaethau a dynnir ynghylch unrhyw hawliad a ddygir gan drydydd parti sy'n honni toriad.

10. Amserlen

Yr amserlen ar gyfer y contract hwn yw:

Dyddiad	Digwyddiad
[Pob dyddiad arwyddocaol]	[Pob digwyddiad/allbwn arwyddocaol]

Bydd yr holl waith cynllunedig yn cael ei gwblhau gan y Contractwr yn unol â'r amserlen a ddatgenir uchod ac o fewn oes y contract hwn. Cytunir bod amser yn hanfodol o ran y Contractwr yn cyflenwi gwaith yn unol â'r amserlen a ddatgenir uchod.

Bydd y Contractwr yn darparu'r fath wybodaeth sydd ei hangen i alluogi Universities UK i fonitro cynnydd. Bydd y Contractwr yn darparu'r holl ddogfennaeth briodol i bob aelod o Grŵp Llywio'r astudiaeth o leiaf bum diwrnod gwaith cyn pob cyfarfod o'r Grŵp Llywio.

11. Talu

Ni fydd cyfanswm y ffi ar gyfer y contract yn fwy na £..... gan gynnwys TAW a threuliau.

Bydd y Contractwr yn anfonebu Universities UK am y ffi a gaiff ei thalu mewn ....rhandaliad:

i.	[Manylion rhandaliadau]	£ gan gynnwys TAW
ii.		£ gan gynnwys TAW

(I'w gynnwys os yw'r contractwr yn unigolyn, h.y. nid yn gwmni neu sefydliad) [Bydd y Contractwr yn gwbl gyfrifol am dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol ac am dalu unrhyw dreth incwm sy'n daladwy ynghylch y ffi, a bydd yn talu unrhyw gyfraniadau a threthi o'r fath i'r awdurdodau priodol.]

Dylid anfon anfonebau at [Enw] yn Universities UK, Woburn House, 20 Tavistock Square, LLUNDAIN WC1H 9HQ. [Bydd derbynebau'n cael eu cyflwyno i gefnogi hawliadau am dreuliau rhesymol a dynnir].

12. Telerau Talu

Fel arfer, bydd anfonebau'n daladwy o fewn 30 diwrnod ar ôl eu derbyn. Mae prisiau'n sefydlog ar gyfer hyd y contract.

13. Terfynu

Gall Universities UK derfynu'r contract am unrhyw reswm ar ôl rhoi rhybudd ysgrifenedig o ugain diwrnod.

Gall y naill barti neu'r llall derfynu'r cytundeb hwn ar unwaith am unrhyw doriad difrifol ar y contract gan y llall nad yw'n cael ei unioni o fewn saith diwrnod o hysbysiad ysgrifenedig o'r toriad.

Bydd darpariaethau cymalau 5, 6, 7, 8 a 9 yn goroesi unrhyw derfyniad ar y contract hwn.

14 Force Majeure

Nid ystyrir bod y naill barti na'r llall yn torri ar y contract os bydd methiant i gydymffurfio â gofynion y contract yn deillio o amgylchiadau y tu hwnt i'w rheolaeth resymol.

15. Hawlfraint ac Eiddo Deallusol

Bydd hawlfraint gwaith ysgrifenedig a gynhyrchir mewn cysylltiad â'r contract yn perthyn i Universities UK.

Mae Universities UK yn cadw'r hawl i gyhoeddi neu beidio â chyhoeddi, ond, yn amodol ar gymeradwyaeth ysgrifenedig flaenorol Universities UK, bydd y Contractwr yn gallu defnyddio'r deunydd mewn ymchwil arall ond ni fydd ganddo hawl i wneud elw o ecsbloetio deunydd o'r fath yn fasnachol heb gytuno ar freindaliadau priodol ag Universities UK. Mae'r olaf yn amodol ar y Contractwr yn trin yr holl wybodaeth a gafwyd yn ystod y contract yn gwbl gyfrinachol.

Gall y Contractwr gyhoeddi erthyglau wedi'u seilio ar yr adroddiad ysgrifenedig terfynol yn dilyn ei dderbyn gan y Grŵp Llywio ac fel y'i cymeradwyir ymlaen llaw gan Universities UK.

16. Cyhoeddi'r Adroddiad Terfynol

Rhaid i destun a ffigurau cysylltiedig yr adroddiad terfynol sy'n deillio o'r contract gael eu darparu gan y Contractwr yn arddull fewnol Universities UK gan gydymffurfio â fformat prosesu geiriau safonol. Bydd rhaid i'r Contractwr adolygu a diwygio'r broflen derfynol fel bo angen cyn i unrhyw adroddiad terfynol gael ei argraffu.

Bydd Universities UK yn gyfrifol am unrhyw gyhoeddiad o unrhyw adroddiad terfynol sy'n deillio o'r gwaith a wneir gan y Contractwr a bydd yn cymryd pob penderfyniad terfynol ar ddyluniad a chynnwys.

Bydd Universities UK yn derbyn yr incwm o werthu unrhyw gyhoeddiad a gynhyrchir o ganlyniad i'r contract a bydd yn darparu [nifer] o gopïau am ddim i'r Contractwr.

Bydd Universities UK yn cymryd pob penderfyniad ar noddi unrhyw adroddiad terfynol sy'n deillio o'r contract neu unrhyw ddigwyddiad gwasgaru.

17. Cyffredinol

Y gyfraith reoli o gyfraith gontract ac o berthynas y partïon sy'n deillio ohoni fydd cyfraith Lloegr. Mae'r ddau barti yn cytuno i ymostwng i awdurdodaeth llysoedd Lloegr mewn perthynas ag unrhyw faterion sy'n deillio o'r contract neu mewn cysylltiad ag ef.

Mae'r telerau a gyflwynir yma (ynghyd â'r dogfennau y cyfeirir atynt yn y cymal cyntaf) yn golygu'r cytundeb cyfan rhwng y partïon yma ac yn disodli'r holl negodiadau, sylwadau neu gytundebau naill ai'n ysgrifenedig neu ar lafar cyn y contract.

AR RAN: Y CONTRACTOR	AR RAN: Universities UK
GAN:	GAN: .....
[Enw a swydd]	[Enw a swydd]
DYDDIAD:	DYDDIAD: .....